| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 01/04/21 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 04/05/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.02 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Pobl |
| **Maes Gwaith:** | Iechyd Galwedigaethol |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 864663<br>IechydGalwedigaethol@caerffili.gov.uk |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Iechyd Galwedigaethol |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r math o ddata personol y mae Iechyd Galwedigaethol yn ei gasglu am weithwyr a darpar weithwyr, pam rydyn ni ei angen a gyda phwy rydyn ni'n rhannu'r data. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol:

Enw
Teitl
Dyddiad geni
Rhywedd
Cyfeiriad
Manylion cyswllt
Rhif Yswiriant Gwladol
Galwedigaeth
Manylion cyflogaeth
Manylion cyflogaeth y swydd y gwnaed cais amdani (ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig penodiad)
Manylion absenoldeb salwch
Hanes iechyd a meddygol

### Ffynhonnell y data personol

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan y gweithiwr, ei reolwr llinell a'i feddyg teulu neu weithiwr meddygol proffesiynol

Ar gyfer darpar weithwyr, darperir y wybodaeth hon gan unigolion sy'n dymuno derbyn Cynnig o Benodiad y Cyngor.

## Eich rhwymedigaethau

### Mae gennych chi rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani

Ar gyfer gweithwyr, mae rhwymedigaeth gytundebol arnoch chi, a ddarperir gan eich

contract cyflogaeth, i ymgysylltu â Gweithdrefn Rheoli Absenoldeb Salwch y Cyngor. Cyfeiriwch at Weithdrefn Rheoli Absenoldeb Salwch y Cyngor am ragor o fanylion. Mae rhwymedigaeth gytundebol hefyd i gymryd rhan mewn monitro iechyd rhai rolau o fewn y Cyngor i sicrhau iechyd a diogelwch parhaus staff.

Ar gyfer darpar weithwyr, mae'r cynnig o benodiad yn amodol ar gadarnhad o wiriad iechyd boddhaol i'w bennu gan Dîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.

### Canlyniadau peidio â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani

Gall methu â chydymffurfio â Gweithdrefn Rheoli Absenoldeb Salwch neu Wyliadwriaeth Iechyd y Cyngor arwain at gamau disgyblu.

Bydd methu â chydymffurfio â'r asesiad meddygol cyn cyflogaeth yn arwain at dynnu cynnig o benodiad y Cyngor yn ôl.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Ar gyfer gweithwyr, byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth i sicrhau bod gweithle diogel ac iach yn cael ei gynnal drwy asesu pa fesurau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau eich lles tra yn y gwaith, p'un a yw hyn yn golygu darparu offer i fodloni eich gofynion neu newid eich dyletswyddau i atal effeithiau andwyol ar eich iechyd. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio i roi cymorth i chi pan fyddwch chi'n sâl er mwyn eich galluogi chi, lle bo'n bosibl, i aros yn y gwaith neu i'ch galluogi chi i ddychwelyd i sefyllfa lle gallwch chi weithio. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio i ystyried pa opsiynau sydd ar gael os nad oes modd i chi barhau yn eich rôl bresennol oherwydd salwch neu fater meddygol.

Ar gyfer darpar weithwyr sydd â chynnig amodol o benodiad, byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth i sicrhau eich bod yn feddygol ffit i ymgymryd â'r rôl rydych chi'n gwneud cais amdani.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1.b processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

2.h processing is necessary for the purposes of preventive or occupational medicine, for the assessment of the working capacity of the employee, medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services on the basis of Union or Member State law or pursuant to contract with a health professional and subject to the conditions and safeguards referred to in paragraph 3;

Mae'r Erthygl uchod hefyd angen amod ychwanegol o Atodlen 1 y Ddeddf Diogelu Data 2018 ar gyfer prosesu (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth

nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

2 (1) This condition is met if the processing is necessary for health or social care purposes.

(2) In this paragraph “health or social care purposes” means the purposes of—

(a) preventive or occupational medicine,

(b) the assessment of the working capacity of an employee,

(c) medical diagnosis,

(d) the provision of health care or treatment,

(e) the provision of social care, or

(f) the management of health care systems or services or social care systems or services.

(3) See also the conditions and safeguards in Article 9(3) of the GDPR (obligations of secrecy) and section 11(1).

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Adnoddau Dynol, Rheolwyr Llinell neu ddarpar Reolwyr Llinell, Iechyd Galwedigaethol gan gynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol allanol sydd wedi eu galw i gyflawni’r gwasanaeth.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Gall manylion unrhyw gyflwr iechyd neu feddygol gael eu rhannu â’ch Rheolwr Llinell neu eich darpar Reolwyr Llinell, staff Adnoddau Dynol a staff Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol allanol sydd wedi eu galw i gyflawni’r gwasanaeth.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Gall eich manylion chi gael eu rhannu â gweithwyr meddygol proffesiynol a’r darparwr pensiwn, fodd bynnag, bydd eich caniatâd ysgrifenedig chi yn cael ei geisio cyn rhyddhau unrhyw wybodaeth.

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Mae’n bosibl y bydd prosesyddion data allanol yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ac i ddarparu gwasanaethau meddalwedd. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu o dan gontract sy’n gwarchod diogelwch eich gwybodaeth bersonol chi.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth

Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Byddwn ni’n storio rhai cofnodion gwyliadwriaeth iechyd am gyfnod o 40 mlynedd yn unol â’r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ganlynol.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Cofnodion meddygol fel y nodir yn y Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy’n Beryglus i Iechyd (COSHH).
Awdurdod statudol: Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy’n Beryglus i Iechyd 1999 a 2002 (COSHH) (SIs 1999/437 and 2002/2677).

Cofnodion meddygol o dan y Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2002: cofnodion meddygol sy’n cynnwys manylion gweithwyr sydd wedi dod i gysylltiad ag asbestos a thystysgrifau profion meddygol.
Awdurdod statudol: Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2002 (SI 2002/2675).
Hefyd gweler y Rheoliadau Rheoli Asbestos 2006 (SI 2006/2739) a’r Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012 (SI 2012/632).

Dirgryniad Braich a Dwylo – Rheoliadau Rheoli Dirgryniad yn y Gwaith 2005

Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw): Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)

- Yr hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan:
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd Iechyd Galwedigaethol yn defnyddio eich gwybodaeth i sicrhau bod gweithle diogel ac iach yn cael ei gynnal drwy asesu pa fesurau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau eich lles tra yn y gwaith, p'un a yw hyn yn golygu darparu offer i fodloni eich gofynion neu newid eich dyletswyddau i atal effeithiau andwyol ar eich iechyd. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio i roi cymorth i chi pan fyddwch chi'n sâl er mwyn eich galluogi chi, lle bo'n bosibl, i aros yn y gwaith neu i'ch galluogi chi i ddychwelyd i sefyllfa lle gallwch chi weithio. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio i ystyried pa opsiynau sydd ar gael os nad oes modd i chi barhau yn eich rôl bresennol oherwydd salwch neu fater meddygol. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth yw'r rhwymedigaeth gytundebol a ddarperir gan eich contract cyflogaeth.

Gall eich gwybodaeth chi hefyd gael ei ddefnyddio gan eich Rheolwr Llinell neu eich darpar Reolwr Llinell, Adnoddau Dynol, a gweithwyr meddygol proffesiynol allanol sydd wedi eu galw i gyflawni'r gwasanaeth. Gall eich gwybodaeth chi gael ei rannu gyda gweithwyr meddygol proffesiynol ac eich darparwr pensiwn gyda'ch caniatâd. Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi am hyd at 40 mlynedd neu fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}